**SEWR- 01-99 (min)**

**PWYLLGOR RHANBARTHOL DE DDWYRAIN CYMRU**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 9fed Gorffennaf 1999

**Amser:** 10:30am hyd 12:30pm

**Lleoliad:** Y Brif Siambr, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn Bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jane Davidson | Pontypridd |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| David Davies | Trefynwy |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |

| | |
|---|---|
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Carwyn Jones | Pen-y-bont ar Ogwr |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Phil Williams | Gorllewin De Cymru |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Martin Stevenson | Clerc |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc |

Dechreuodd y cyfarfod gyda Chlerc y Pwyllgor yn Cadeirio.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran Alun Cairns, Sue Essex, Michael German, David Rhys Lloyd ac Owen John Thomas.

**Eitem 2: Ethol y Cadeirydd: SEWR-01-99 (t.1)**

2.1 Gwahoddodd y Clerc enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor. Cynigiwyd Carwyn Jones gan John Griffiths a chafodd yr enwebiad ei eilio gan Janice Gregory. Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill ac etholwyd Carwyn Jones a chymerodd y Gadair.

**Eitem 3: Blaen-raglen Waith a Dull Gweithio:**

**SEWR-01-99 (t.2)**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Dywedodd mai'r Pwyllgor hwn oedd y pwyllgor rhanbarthol mwyaf a bod amrywiaeth amlwg o ran amodau cymdeithasol ac economaidd o fewn y rhanbarth, gan gynnwys rhai ardaloedd o amddifadedd difrifol. Roedd angen gwella ffyniant holl drigolion yr ardal.

3.2 Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Aelodau gyflwyno pynciau i'w cynnwys yn y flaen-raglen waith i ddechrau ac wedyn parhau i drafod strwythur y Pwyllgor a'r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

3.3 Awgrymwyd y pynciau canlynol i'w cynnwys yn y flaen-rageln waith:

- Polisi Swyddfa'r Post o ran cyfeiriadau post, gan fod y gofyniad i gynnwys y dref bostio yn y cyfeiriad (hynny yw'r dref lle mae'r swyddfa ddosbarthu) wedi achosi problemau mewn nifer o etholaethau. Nid oedd yr Aelodau'n fodlon â'r ymatebion a dderbyniwyd gan Swyddfa'r Post;

- Polisi Cronfeydd Strwythurol Ewrop, lle'r awgrymwyd y dylid cynnal dadansoddiad o'r gyfradd derbyn arian dros y pedair blynedd diwethaf, yn ogystal â datblygu strategaeth weithredu ar gyfer rhaglen Amcan 1;

- Y strategaeth economaidd ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru;

- Trafnidiaeth integredig yn y rhanbarth, yn arbennig cysylltiadau rhwng Caerdydd a'r Cymoedd;

- Datblygu Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, gan gynnwys cysylltiadau tir â'r Maes Awyr;

- Ymlediad ffyniant economaidd o Gaerdydd i'r ardal o gwmpas y ddinas;

- Y cysylltiadau rhwng y Prifysgolion yn yr ardal a mentrau bach a chanolig eu maint;

- Strategaethau gwastraff lleol, gan gynnwys polisïau ailgylchu;

- Addysgu’r Gymraeg yn orfodol ar lefel TGAU yn Sir Fynwy;
- Polisi addysg ar lefel uwchradd, yr awgrymwyd y gallai gynnwys cyfarfod Penaethiaid ysgolion uwchradd yn y rhanbarth;
- Mabwysiadu ffiniau safonol o fewn y rhanbarth gan gyrff sector cyhoeddus;
- Eithrio cymdeithasol a thlodi;
- Anghydraddoldebau iechyd lleol;
- Twristiaeth;
- Cyfradd derbyn arian grant y Loteri Genedlaethol;
- Datblygu gwasanaethau ieuenctid;
- Perthynas y Cynulliad â chymunedau du ac ethnig;
- Y ffordd orau o osgoi dyblygu gwaith y pwyllgorau pwnc.

3.4 Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynglí n â ph’un a oedd yn briodol i’r Pwyllgor rannu’n is-bwyllgorau, bob un yn cwmpasu rhan o ranbarth De Ddwyrain Cymru. Y teimlad cyffredinol oedd nad oedd yn briodol creu is-bwyllgorau, yn arbennig o ystyried y ffocws tebygol ar arian Amcan 1 dros y cyfarfodydd cyntaf. Os byddai angen, cytunwyd y byddai grwpiau ‘tasg a gorffen’ yn ddull mwy addas o weithredu nac is-bwyllgorau ar gyfer ystyried materion ardal leol.

3.5 Ystyriodd y Pwyllgor hefyd p’un a oedd yn briodol i’r Aelodau godi materion a oedd yn benodol i’w hetholaeth. Teimlai rhai Aelodau mai dim ond pan oeddent o bwys ehangach y dylai’r Pwyllgor ystyried materion etholaethol, tra roedd eraill yn awyddus i sicrhau y gelllid trafod materion lleol. Yn absenoldeb cytundeb barn amlwg ar y pwynt hwn, awgrymodd y Cadeirydd mai’r ffordd ymlaen oedd i’r Pwyllgor gadw’r mater hwn mewn cof, gan nodi bod mecanwaith ar gael i Aelodau godi materion sy’n peri pryder iddynt o dan Orchymyn Sefydlog 10.2.

3.6 Awgrymwyd hefyd bod angen diffinio rôl y pwyllgorau rhanbarthol yn gyffredinol ac yn arbennig Pwyllgor Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru, o ystyried maint y boblogaeth a’r economi. Un o’r prif faterion oedd y cyfraniad y gallai De Ddwyrain Cymru ei wneud i ddatblygiad Cymru yn gyffredinol. Codwyd y cwestiwn hefyd o sut y gallai rhanbarth De Ddwyrain Cymru osgoi’r cyhuddiad ei fod wedi denu mwy na’i gyfran deg o weithgaredd economaidd ar draul rhanbarthau eraill yng Nghymru.

**Eitem 4: Materion Ymarferol: SEWR-01-99 (t.3)**

4.1 O ran lleoliadau ar gyfer y cyfarfodydd yn y dyfodol, roedd teimlad cryf y dylai’r Pwyllgor gyfarfod ar hyd a lled y rhanbarth. Awgrymwyd y dylid anelu at gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor ymhob etholaeth, hyd yn oed os byddai’n rhaid cyfaddawdu o ran y cyfleusterau a gynigir gan rai o’r lleoliadau.

4.2 Lleisiwyd pryder hefyd ynglí n ag a ddylai’r Pwyllgor ganiatáu amser er mwyn cwrdd â’r cyhoedd, yn ogystal â grwpiau cymunedol lleol a sefydliadau gwirfoddol. Gellid rhannu’r cyfarfodydd yn sesiynau ffurfiol ac anffurfiol, neu gellid cynnal cyfarfodydd anffurfiol ar wahân mewn lleoliadau lleol fel ysgolion neu neuaddau pentref. Roedd hi’n bwysig i’r cyhoedd fod yn ymwybodol o’r cyfarfodydd, a byddai’r Ysgrifenyddiaeth yn ystyried y ffordd fwyaf cost-effeithiol o sicrhau cyhoeddusrwydd lleol.

4.3 Cytunwyd mai’r materion pwysicaf ar gyfer y cyfarfod nesaf oedd:

- cyfeiriadau post, y gwahoddir Cadeirydd a Rheolwr Gweithrediadau’r Bwrdd Post i’w fynychu o’r herwydd;
- y strategaeth economaidd leol ar gyfer rhanbarth De Ddwyrain Cymru, y gwahoddir cynrychiolydd o Awdurdod Datblygu Cymru i’w fynychu o’r herwydd;
- dadansoddiad o gyfradd derbyn arian Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn y rhanbarth dros y pedair blynedd ddiwethaf;
- y strategaeth weithredu ar gyfer rhaglen Amcan 1.

4.4 Byddai blaen-raglen waith y Pwyllgor yn adlewyrchu’r materion eraill a nodwyd yn y cyfarfod.

4.5 Cytunwyd y dylid cynnal y cyfarfod ym mis Medi ac y dylai fod yn Swyddfeydd y Cyngor ym Merthyr Tudful, os byddant ar gael. Gofynnodd yr Aelodau i gael eu hysbysu o ddyddiad y cyfarfod cyn cau dros yr haf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor 14 Gorffennaf 1999**